Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 12/2014

# Adroddiad Synthesis Dechrau'n Deg



# Adroddiad Synthesis Dechrau'n Deg
# Ionawr 2014

**SQW:**
**Marian Morris**
**Robert Willis**

**Ipsos Mori:**
**Sarah Knibbs**

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Hayley Collicott
Is-Adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ
Ffôn:: 029 2082 3111
E-bost: hayley.collicott@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014
ISBN 978-1-4734-0928-6
© Hawlfraint y Goron2014

# Cynnwys

Cyflwyniad ........................................................................................................ 1

Prif ddarganfyddiadau ........................................................................................ 2

Y gwersi a ddysgwyd ........................................................................................ 11

# Cyflwyniad

## Cefndir polisi

1. Lansiwyd rhaglen Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru yn 2006/07. Mae'n weithredol ym mhob awdurdod lleol ers 2007/08 a'i nod yw gwella canlyniadau ar gyfer plant yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Ni all Dechrau'r Deg, ar ei ben ei hun, roi sylw (ac nid yw wedi'i gynllunio i roi sylw) i'r holl elfennau o anfantais sy'n gysylltiedig â thlodi plant. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar adnabod angen ac ar ymyriadau cynnar er mwyn gwella datblygiad iaith, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol plant, a'u hiechyd corfforol. Dyma brif elfennau'r ddarpariaeth:

- gwasanaeth gwell gan ymwelwyr iechyd
- gofal plant rhan-amser am ddim o ansawdd uchel
- rhaglenni cefnogi rhianta yn seiliedig ar dystiolaeth
- cefnogaeth i ddatblygiad iaith cynnar

## Strwythur yr adroddiad

2. Mae'r adroddiad cryno a chyffredinol hwn yn dod â'r darganfyddiadau diweddaraf o astudiaethau a wnaed gan Ipsos MORI a SQW at ei gilydd ar gyfer y gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'r Deg. Mae'n seiliedig ar ddata'r canlynol:

- Astudiaethau achos manwl o Dechrau'n Deg yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru (a gynhaliwyd gan SQW), yn seiliedig ar ddadansoddiad thematig o ddogfennau a data cyfweliadau gyda mwy na 150 o randdeiliaid, yr ymwelwyd â hwy yn ystod haf a hydref 2012.
- Arolwg effaith hydrefol, a weithredwyd gan Ipsos MORI, yn seiliedig ar yr ail don o ddata a gasglwyd gan 2,116 o deuluoedd gyda phlant rhwng dwy a phedair oed. Rhwng mis Mehefin 2012 a mis Ionawr 2013, arolygwyd 1,033 o rieni yn ardaloedd Dechrau'n Deg a 1,083 o rieni mewn ardaloedd cymharu dethol am rianta, am ddatblygiad eu plentyn ac am unrhyw wasanaethau cefnogi teuluoedd yr oedd eu teulu wedi eu defnyddio wrth fagu eu plentyn. Roedd yr holl deuluoedd a oedd yn byw mewn ardaloedd ble'r oedd y rhaglen Dechrau'r Deg ar gael yn gymwys i fod yn rhan o'r arolwg, pa un ai oeddent wedi defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg ai peidio.
- Cyfweliadau ansoddol manwl, a wnaed gan Ipsos MORI, gyda 60 o rieni 'angen mawr' mewn pump awdurdod lleol gwahanol a oedd wedi derbyn (neu a oedd yn dal i dderbyn) gwasanaethau Dechrau'n Deg.

3. Oni bai y nodir fel arall, mae'r darganfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y cyfnod o amser pryd gwnaed gwaith maes y gwerthusiad (rhwng mis Mehefin 2012 a mis Ionawr 2013).

4. Dim ond cipolwg ar y prif ddarganfyddiadau a geir yn y crynodeb hwn. Gellir gweld manylion llawn holl ddarganfyddiadau'r ymchwil (gan gynnwys esboniadau technegol yr arolwg ac ymarferion casglu data eraill a'r dadansoddiadau amrywiol) yn yr adroddiadau canlynol:

- Knibbs S, Pope S, Dobie S, a De Souza J (Ipsos MORI) (2013) National Evaluation of Flying Start: Impact Report
- Morris M, Willis R (SQW) (2013) National Evaluation of Flying Start: Area case study synthesis report
- Pope S, Dobie S, Thompson E, a Knibbs S, (Ipsos MORI) (2013) Flying Start qualitative research with high need families

**Cydnabyddiaeth**

Paratowyd yr adroddiad cryno hwn gan Marian Morris a Robert Willis o SQW a Sarah Knibbs o Ipsos MORI. Hoffem ddiolch yn arbennig i Hayley Collicott, Chris Roberts a Joanne Starkey o Lywodraeth Cymru, y Partneriaethau Dechrau'n Deg yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac, yn olaf, i'r 2,176 o deuluoedd a roddodd eu hamser i gymryd rhan yn y gwerthusiad cenedlaethol.

# Prif ddarganfyddiadau

5. Er gwaethaf newidiadau i'r polisi cenedlaethol a'r cyd-destun economaidd, **mae'r rhesymeg a'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer Dechrau'n Deg yn parhau yr un mor ddilys heddiw ag yr oeddent ar ddechrau'r rhaglen.** Mae tlodi plant yn parhau'n broblem fawr i lawer o deuluoedd sy'n byw yng Nghymru ac mae nifer fawr o deuluoedd o hyd yn byw mewn cymunedau difreintiedig ledled y wlad. O ganlyniad, mae'r angen am ymyriadau gan y sector cyhoeddus i gefnogi plant a theuluoedd o'r fath yn parhau'n hynod bwysig. Drwy fuddsoddi mewn darparu gofal plant, gwasanaeth ymwelwyr iechyd, cefnogaeth rhianta a datblygiad iaith cynnar i blant, mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn ceisio sicrhau newid cynaliadwy yn natblygiad plant a theuluoedd. Dros amser, mae disgwyl y bydd hyn yn cyfrannu at y canlyniadau a'r effeithiau canlynol:

- gwell paratoi ar gyfer dysgu, drwy welliannau mewn cyrhaeddiad addysgol, amgylchiadau cymdeithasol ac iechyd a lles plant
- llai o dlodi plant ynghyd â llai o angen am ofal adferol a'r costau cysylltiedig â hynny.

## Mewnbynnau a phrosesau

### *Ymweliadau iechyd*

6. Erbyn 2012, roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol yn dweud eu bod yn cynnig yr hawl yn llawn, o ran cyswllt teuluol un i un ac ymweliadau dilynol rheolaidd gyda staff wedi'u hyfforddi'n llawn, a fyddai'n gofyn am amrywiaeth eang o wasanaethau a chefnogaeth ychwanegol.

7. Hefyd, roedd y rhan fwyaf o ardaloedd Dechrau'n Deg wedi sefydlu timau gofal iechyd ehangach, yn cynnig cymysgedd rhyngasiantaeth o ymwelwyr iechyd, therapyddion iaith a lleferydd, deietegwyr a bydwragedd (neu gyswllt bydwreigiaeth), gyda disgwyliadau clir am weithio integredig.

8. Erbyn haf a hydref 2012, roedd 13 o'r 22 awdurdod lleol yn dweud eu bod wedi cyrraedd ac yn cynnal targed Dechrau'n Deg o 1:110 i lwyth achosion ymwelwyr iechyd. Mae'r gymhareb hon yn debyg i'r un a nodwyd yn 2009 a dynododd rhai gwasanaethau eu bod yn dal i wynebu problemau gyda recriwtio a chadw ymwelwyr iechyd, er eu bod yn edrych ar wahanol ffyrdd i oresgyn hyn. Er hynny, roedd y llwyth achosion ledled yr holl ardaloedd yn sylweddol is nag yn yr ardaloedd heb raglen Dechrau'n Deg (ble dywedwyd ei fod rhwng 1:300 a 1:400).

9. Mae'r wybodaeth o'r cyfweliadau manwl gyda theuluoedd 'angen mawr' yn awgrymu bod y mewnbynnau gan ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn cymharu'n ffafriol iawn mewn achosion ble'r oedd gan deuluoedd blant hŷn ac wedi profi mewnbwn gan ymwelwyr iechyd nad oeddynt yn gweithio i raglen Dechrau'n Deg. Priodolwyd hyn yn rhannol i'r ffaith bod yr ymweliadau'n digwydd yn amlach ac yn rhannol i'r

perthnasoedd anffurfiol cadarn yr oedd yr ymwelwyr iechyd yn gallu eu sefydlu gyda'r teuluoedd.

10. Yn eu tro, roedd y perthnasoedd hyn yn annog rhieni i gysylltu ag ymwelwyr iechyd am ystod eang o faterion rhianta (waeth pa mor fach) a hefyd ystyried gwasanaethau eraill Dechrau'n Deg.

### *Gofal plant*

11. Mae'r hawl i ofal plant yn anelu at gynnig gofal plant rhan-amser, safonol am ddim i blant dwy i dair oed (ac ar gyfer plant iau na dwy oed, os oes angen). Ers cyflwyno Dechrau'n Deg, mae'r ddarpariaeth o gyfleusterau gofal plant mewn awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweld newid nodedig. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ardaloedd Dechrau'n Deg eu bod yn cyflwyno'r cynnig gwasanaeth llawn yn awr ar gyfer yr holl blant dwy i dair oed cymwys, gyda staff sydd wedi cymhwyso'n briodol a darpariaeth un i un ar gyfer y rhai sydd ag anghenion ychwanegol.

12. Mae gwybodaeth o'r adroddiadau cynnydd blynyddol, yr adroddiadau arolygu a'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid, o'i hystyried ochr yn ochr â nifer y teuluoedd sy'n defnyddio gofal plant yn awr, y lefelau cymhwyso gwell ymhlith staff a'r data am dueddiadau sydd ar gael am ddata Cyfnodau Twf ac asesiadau athrawon, yn awgrymu bod arwyddion cadarn bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth gofal plant.

13. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid oedd y lleoliadau gofal plant yn llawn ac nid oedd presenoldeb uchel ynddynt yn gyson. Roedd rhoi sylw i bresenoldeb gwael yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd Dechrau'n Deg, gyda llawer yn awr yn cyflwyno ac yn gweithredu protocolau i fynd ar ôl absenoldeb, gan gynnwys ffonio rhieni ac, os yn briodol, ymweld â'u cartrefi.

14. Dangosodd y cyfweliadau gyda'r teuluoedd gyda mwy o angen bod rhieni'n teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am gynnydd eu plant, roeddent yn frwd eu canmoliaeth i'r staff ac yn hapus gydag ystod ac ansawdd y gweithgareddau a gynigiwyd.

15. Fodd bynnag, mewn llond dwrn o achosion, nododd y rhieni nad oeddent wedi gallu defnyddio'r lleoliad gofal plant roeddent yn ei ffafrio (e.e. oherwydd problemau mynediad, neu ddiffyg llefydd), neu nid oeddent wedi cael eu dewis cyntaf o sesiwn (boed yn fore neu brynhawn).

### *Rhaglenni Cefnogi Rhianta*

16. Er bod rhai mathau o raglenni cefnogi rhianta'n bodoli mewn nifer o ardaloedd cyn cyflwyno Dechrau'n Deg (gyda rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio bod hyn yn rhan o agenda genedlaethol ehangach), roeddent i gyd yn gytûn yn awr bod lefel y gefnogaeth sydd ar gael yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn llawer mwy na'r gefnogaeth oedd ar gael i rieni y tu allan i Dechrau'n Deg.

17. Ledled ardaloedd Dechrau'n Deg, roedd y rhaglenni cefnogi rhianta'n canolbwyntio ar ymyriadau i rieni:

- ar **wahanol adegau** yn ystod bywyd eu plentyn (cyn geni, babi a phlentyn bach)
- defnyddio **fformatau gwahanol** (grwpiau ffurfiol neu anffurfiol a gweithgareddau un i un, gan gynnwys cefnogaeth ddwys, mewn cartrefi neu mewn lleoliadau niwtral)
- gyda **gwahanol gyfryngau cyfeirio** (drwy ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg, staff gofal iechyd neu gymdeithasol eraill, gan gynnwys bydwragedd a phersonél Dechrau'n Deg a phersonél heb fod yn rhan o raglen Dechrau'n Deg, neu drwy hunangyfeirio, er enghraifft).

18. Roedd argaeledd y gefnogaeth rianta (boed mewn grwpiau neu yn y cartref) yn amrywio'n sylweddol ar draws y pump ardal astudiaeth achos ble cyfwelwyd rhieni.

19. Roedd y rhieni 'angen mawr' hynny a oedd wedi mynychu rhaglen cefnogi rhianta'n tueddu i fod yn hapus gyda'r gwasanaeth, ond roedd rhai'n awgrymu nad oeddent yn teimlo ei fod yn ddefnyddiol pan nad oeddent wedi sefydlu perthynas dda gyda'r rhai oedd yn cyflwyno'r rhaglen – neu os oeddent yn teimlo nad oedd y rhaglenni'n rhoi digon o wybodaeth.

20. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am gyfathrebu da gyda theuluoedd am amcanion a natur y gefnogaeth, cyn ac yn ystod rhaglen. Dywedwyd yn aml bod ymwelwyr iechyd yn allweddol er mwyn annog rhieni ynysig, nerfus neu anabl i fynychu rhaglenni rhianta ac yn effeithiol o ran cyrraedd y grwpiau hyn i gyflwyno rhaglenni yn eu cartrefi.

### *Rhaglenni Mynediad i Iaith a Chwarae*

21. Mae graddfa'r twf yn y gweithgarwch Iaith a Chwarae yn llai amlwg nag ar gyfer yr hawliau eraill i gyd. Yn wir, mewn o leiaf chwech o'r 22 awdurdod lleol, awgrymodd yr ymarferwyr nad oedd llawer o wahaniaeth o ran darpariaeth neu hygyrchedd y sesiynau Iaith a Chwarae rhwng cymunedau Dechrau'n Deg a'r cymunedau heb raglen Dechrau'n Deg.

22. Fodd bynnag, nid oedd pawb o'r un farn, ac yn rhannol gall fod yn waith y rhaglen ei hun. Roedd datblygiad lleferydd ac iaith yn cael eu hystyried gan sawl ardal fel swyddogaeth yn ymwneud â sgiliau, ymgysylltu a chysylltiad rhieni ac (fel y dangoswyd gan nifer y rhaglenni cefnogi rhianta sy'n canolbwyntio ar hyn), roeddent yn cael eu hystyried yn aml fel estyniad ar y rhaglen rianta (yn enwedig gan deuluoedd).

23. O bersbectif rhieni, Iaith a Chwarae oedd y gwasanaeth mwyaf gwahanol o ran cyflwyno'r gwasanaeth ym mhump ardal yr astudiaeth achos, gydag amrywiaethau o ran math a nifer y sesiynau a gynigiwyd, lefel yr ymwneud gan rieni a phlant a lleoliad y ddarpariaeth.

24. Roedd rhai rhieni'n cydnabod rôl y gweithgareddau Iaith a Chwarae o ran rhoi syniadau iddynt am ffyrdd creadigol a rhad o helpu eu plant i ddysgu yn y cartref. Fodd bynnag, roedd llawer o'r rhieni a gyfwelwyd yn ansicr am rôl yr elfen hon yn y rhaglen, gan edrych arni'n bennaf fel cyfle cymdeithasol.

## Allbynnau

25. Er mwyn monitro a mesur y cynnydd tuag at gyflawni effaith a chanlyniadau disgwyliedig, roedd y gwerthusiad yn asesu'r perfformiad yn erbyn ystod o allbynnau. Trafodir y cynnydd yn erbyn yr allbynnau yn eu tro isod.

### *Cyswllt ag Ymwelwyr Iechyd a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig*

26. Dywedwyd bod y llwyth achosion Dechrau'n Deg is wedi arwain at wella darpariaeth yr ymwelwyr iechyd, nid yn unig o ran cynyddu allbynnau drwy ymweliadau cartref ychwanegol (yn ôl data cenedlaethol, ymwelwyd â phlant, ar gyfartaledd, tua saith gwaith y flwyddyn gan ymwelydd iechyd neu dîm iechyd Dechrau'n Deg ehangach), ond hefyd o ran hwyluso mynediad i ystod ehangach o wasanaethau (drwy groesgyfeirio) a chefnogaeth fwy penodol yn canolbwyntio ar deuluoedd. Yn ddiddorol, awgrymodd holl ardaloedd Dechrau'n Deg bod yr ymweliadau â theuluoedd yn hirach ac yn ddwysach, ac mai hyn, yn hytrach na nifer cynyddol o ymweliadau (o angenrheidrwydd), oedd yr allwedd i well darpariaeth.

27. Awgrymodd darganfyddiadau'r arolwg bod rhieni'n cael gwell darpariaeth ymweliadau iechyd o ran nifer yr ymweliadau (gan dderbyn 5.7 yn fwy o gysylltiadau na'r teuluoedd heb fod ar raglen Dechrau'n Deg naill ai yn eu cartref neu'r tu allan). Derbyniodd y sampl Dechrau'n Deg 4.6 yn fwy o ymweliadau yn y cartref na'r sampl heb fod yn rhan o Dechrau'n Deg, ond nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn ystadegol yn nifer yr ymweliadau y tu allan i'r cartref. Mae hyn yn awgrymu bod teuluoedd Dechrau'n Deg yn derbyn cyfran uwch o ymweliadau yn y cartref na'r cyswllt mewn lleoliadau eraill fel clinigau (hynny yw, mae'r gwasanaeth nid yn unig yn helaethach ond hefyd yn fwy hygyrch). Canfu gwaith ansoddol gyda theuluoedd mewn angen mawr yn ardaloedd Dechrau'n Deg bod ymweliadau yn y cartref yn eithriadol bwysig er mwyn meithrin perthnasoedd da rhwng yr ymwelydd iechyd a'r rhieni gydag anghenion cymhleth neu ddiffyg hunanhyder, a'u bod yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth da gan ymwelwyr iechyd i rieni gydag anabledd corfforol neu rieni'n dioddef o salwch meddwl.

### *Derbyn y cynnig o ofal plant*

28. Drwy gyfrwng y data a gasglwyd fel rhan o astudiaethau achos yr awdurdodau lleol, gwelwyd bod y **cyfraddau cofrestru'n** amrywio o 98 y cant i 50 y cant o deuluoedd cymwys. Fodd bynnag, mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod y defnydd dilynol o ofal plant (ar ôl cofrestru) yn 90 y cant o leiaf ym mwyafrif yr awdurdodau lleol rhwng 2012 a 2013.

29. Er bod rhai awdurdodau wedi honni yn 2009 bod y defnydd gan deuluoedd cymwys cymaint â 100 y cant, nid oedd unrhyw ardal yn 2012 wedi datgan bod hyn yn wir. Credid mai'r rheswm am hyn yn rhannol oedd am fod rhai ardaloedd yn llai sicr bod ganddynt fas data llawn o'r holl blant cynnwys, boed oherwydd poblogaethau symudol neu oherwydd diffyg cyfres ddata gynhwysfawr am blant dwy i dair oed.

### *Defnydd o raglenni rhianta a chwblhau*

30. Roedd y rhaglenni rhianta ffurfiol ac anffurfiol yn amrywio'n sylweddol, gan ddigwydd weithiau mewn grwpiau neu yng nghartrefi pobl, gyda chyfeirio posib i weithgareddau grŵp ar ddiwedd y rhaglen deuluol ddwys. Ar y cyfan, fodd bynnag, ac os oedd wedi'i gofnodi, dywedwyd bod tua 70 y cant i 75 y cant o'r rhieni a recriwtiwyd **ledled yr holl ardaloedd ac yn y rhaglenni i gyd** wedi cwblhau'r rhaglen yn ffurfiol.

31. Cyflwynodd llawer o ardaloedd yr astudiaethau achos ar y problemau roeddent yn eu hwynebu gyda recriwtio a chadw teuluoedd ar raglenni cefnogi rhianta. Er mwyn rhoi sylw i'r rhain, roeddent wedi cyflwyno ystod o strategaethau er mwyn lleihau amseroedd aros (ar ôl cyfeirio) ac i hybu lefelau uwch o ymgysylltu â rhieni a chwblhau cyrsiau.

### *Defnydd o gefnogaeth Iaith a Chwarae a'r cwblhau*

32. Ers lansio Dechrau'n Deg, mae'n ymddangos bod ehangu cyffredinol ar y ddarpariaeth Iaith a Chwarae wedi digwydd i gynnwys datblygiad rhif (mae Rhifau a Chwarae yn cael ei gynnig mewn wyth ardal o leiaf erbyn hyn) neu blant iau (o enedigaeth i chwe mis). Er hynny, mae graddfa'r twf yn y gweithgarwch Iaith a Chwarae yn llai amlwg nag ar gyfer yr hawliau eraill i gyd.

33. Wedi dweud hynny, mae darganfyddiadau'r arolwg yn dynodi bod darpariaeth Iaith a Chwarae Dechrau'n Deg wedi cael effaith sylweddol. Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif bod **29.4 yn fwy o ymatebwyr yn y grŵp Dechrau'n Deg yn ymwybodol o Iaith a Chwarae o gymharu â'r grŵp cymharu cyfatebol**. Roedd y cyfeirio ar lefel uwch hefyd, gydag amcangyfrif o 24.2 y cant yn fwy o ymatebwyr yn y grŵp Dechrau'n Deg yn adrodd yn ôl am gael eu cyfeirio at Iaith a Chwarae a **13.2 y cant yn fwy yn adrodd yn ôl am fod wedi mynychu sesiynau Iaith a Chwarae.** Fodd bynnag, ychydig iawn o ddata sydd am gwblhau'r ddarpariaeth Iaith a Chwarae. Y rheswm am hyn yn bennaf yw'r ffaith bod y ddarpariaeth Iaith a Chwarae'n cael ei chyflwyno fel elfen integredig yn aml o'r cyflwyno, yn rhan o ddarpariaeth fel gofal plant.

### *Datblygu'r gwasanaeth*

34. Erbyn 2012, roedd mwyafrif yr ardaloedd yn dweud eu bod yn cynnig yr hawl yn llawn, o ran cyswllt teuluol un i un ac ymweliadau dilynol rheolaidd gyda staff wedi'u hyfforddi'n llawn, a fyddai'n gofyn am amrywiaeth eang o wasanaethau a chefnogaeth ychwanegol.

- Er bod y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn dweud eu bod wedi cyrraedd targed Dechrau'n Deg o 1:110 o lwyth achosion i ymwelwyr iechyd, dywedodd naw ardal eu bod yn cael trafferth cyrraedd y targed hwn.

- Roedd yr heriau wrth recriwtio a gafodd eu nodi gan weithwyr proffesiynol Dechrau'n Deg yn ymwneud â salwch staff, absenoldeb mamolaeth neu newidiadau yn nifer y plant cymwys o'u geni hyd at dair oed yn codi o boblogaeth dros dro neu gynnydd annisgwyl mewn cyfraddau geni yn lleol.

- Ers cyflwyno Dechrau'n Deg, mae'r ddarpariaeth o gyfleusterau gofal plant mewn awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweld cynnydd nodedig, gyda rhai ardaloedd yn cynyddu eu gallu hyd at saith gwaith. Fodd bynnag, mae'r ffigurau cofrestru a phresenoldeb yn dynodi nad yw holl blant Dechrau'n Deg yn derbyn gwasanaethau gofal plant, neu maent yn gwneud hynny yn lleoliadau Dechrau'n Deg yn unig.

35. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru system gasglu data newydd er mwyn casglu data gan y 22 awdurdod lleol, gyda'r gyfres ddata lawn gyntaf yn cynnwys gwybodaeth o flwyddyn ariannol 2012/13.

36. Ochr yn ochr â'r system fonitro genedlaethol, mae llawer o'r awdurdodau lleol wedi cyflwyno protocolau rhannu data newydd yn awr, gan weithredu cyfresi data a rennir (gan ddefnyddio systemau fel PARIS, a ddefnyddir yn eang gan wasanaethau iechyd). Dywedir bod hyn wedi cael effaith yn fewnol (gyda chyfeirio cyflymach a symlach a gwell rhannu data rhwng gwasanaethau) a hefyd galluogi timau Dechrau'n Deg i adrodd yn ôl ar allbwn gwasanaethau ac ar y canlyniadau i blant a theuluoedd.

37. Ym mhob awdurdod lleol, fodd bynnag, ceir rhai gwasanaethau o hyd sydd heb eu cysylltu eto i gyfres ddata gyffredin yn lleol, gyda gwahanol wasanaethau'n defnyddio gwahanol feddalwedd (ac amherthynol). Mae hyn yn golygu ei bod wedi bod yn anodd rhannu data yn fewnol mewn rhai achosion, ac nad yw casglu data ehangach a'u dadansoddi yn syml.

## Canlyniadau (canolradd)

38. Ni fyddwn yn gwybod beth yw canlyniadau ac effaith tymor hwy Dechrau'n Deg am nifer o flynyddoedd. Er enghraifft, dim ond chwech i saith oed yw oedran y plant a aned yn y flwyddyn pan lansiwyd Dechrau'n Deg (2006/07). Felly, ni ellir sefydlu'r effaith yn y tymor hwy ar eu canlyniadau addysgol, cymdeithasol ac iechyd.

39. Hefyd, o ystyried yr amser a gymerodd i Dechrau'n Deg gael ei sefydlu, ychydig iawn, os o gwbl, o'r plant hŷn yma fyddai wedi profi cynnig llawn Dechrau'n Deg, er bod y rhai a aned yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hynny. Er mwyn darparu arwydd o symud tuag at gyflawni canlyniadau ac effeithiau tymor hwy, rydym yn canolbwyntio ar y **canlyniadau canolradd** yr adroddwyd amdanynt ar gyfer plant a'u teuluoedd.

### *Ar gyfer plant*

40. Mae asesu graddfa'r gwelliannau yng nghanlyniadau'r plant ledled ardaloedd yr awdurdod lleol yn broblemus. Er enghraifft, ychydig iawn o ardaloedd sydd wedi bod yn casglu, yn cynnull, yn dadansoddi ac yn adrodd yn ôl ar ddata yn systematig wrth gyrraedd cerrig milltir datblygiadol (gan ddefnyddio data Cyfnodau Twf neu debyg) o'r dechrau, er bod yr ardaloedd i gyd yn gwneud hynny nawr. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd asesu'n wrthrychol y gwahaniaeth y mae Dechrau'n Deg wedi'i wneud i ganlyniadau o ran datblygiad iaith, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol ac iechyd.

41. Wedi dweud hynny, roedd llawer o ardaloedd yn gallu cyfeirio at rai canlyniadau cadarnhaol ar gyfer plant, er bod rhybudd am ansawdd a chwmpas y data. Nodwyd

gwelliannau yn lleol mewn cyfraddau imiwneiddio a bwydo o'r fron yn ardaloedd Dechrau'n Deg, er mae'r data cenedlaethol yn dangos bod y cyfraddau imiwneiddio yn ardaloedd Dechrau'n Deg, yn y rhan fwyaf o achosion, erbyn bod yn bedair oed, ar ei hôl hi yn gyffredinol o gymharu â'r ardaloedd heb fod yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Hefyd dywedodd gweithwyr proffesiynol Dechrau'n Deg bod cynnydd wedi bod yng nghyfran y plant sy'n cyrraedd cerrig milltir datblygiadol priodol.

42. Yn seiliedig ar ddata ystadegau cryno Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012/13, mae'r dystiolaeth ganlynol ar gael:

- Yn 2012, yn ddwy oed, roedd cyfran y grŵp Dechrau'n Deg a oedd yn cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir yn eu hoedran yn 70 y cant neu fwy mewn rhai ardaloedd, ond mewn ardaloedd eraill roedd llai na 40 y cant yn gweithredu ar y lefel hon.

- Yn dair oed, roedd y canlyniadau ar gyfer plant tair oed yn well (yn llawer gwell weithiau) nag ar gyfer plant dwy oed mewn 14 o awdurdodau, yn enwedig mewn rhai o'r ardaloedd, gyda'r canlyniadau gwaelaf ar gyfer y plant iau.

- Er bod y rhain yn ddau grŵp ar wahân ac nad yw'r data yn hydredol, *gall* hyn awgrymu bod ymyriadau fel gofal plant Dechrau'n Deg am ddim o ansawdd uchel yn ddwy i dair oed yn cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau datblygiad plant mewn rhai awdurdodau.

43. Dangosodd yr astudiaeth hydredol o deuluoedd Dechrau'n Deg nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn ystadegol rhwng canlyniadau'r teuluoedd yn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r rhai yn yr ardaloedd eraill, ond mae hefyd yn bosib bod y diffyg gwahaniaeth rhwng grwpiau Dechrau'n Deg a'r grwpiau cymharu yn dynodi rhywfaint o welliant yn y canlyniadau ymhlith y plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae dadansoddiad o ddata cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 1, cyn Dechrau'n Deg, yn awgrymu bod y plant yn yr ardaloedd sy'n gymwys am Dechrau'n Deg yn dechrau o sylfaen is na'r plant yn yr un ardaloedd â'r grŵp cymharu, sy'n dod o gefndiroedd llai difreintiedig efallai.

### *Ar gyfer teuluoedd*

44. O'r data a gasglwyd o ardaloedd Dechrau'n Deg, mae'n ymddangos bod rhywfaint o'r dystiolaeth gadarnaf am ganlyniadau ar gyfer rhieni wedi'i chasglu gan ddefnyddio TOPSE (Adnodd ar gyfer mesur Hunaneffeithiolrwydd Rhianta). Mae'r ardaloedd sy'n defnyddio'r adnodd hwn wedi gallu mesur sgiliau rhianta cyn ac ar ôl ystod o wahanol ymyriadau ac adroddodd y rhain i gyd am o leiaf rhyw **newidiadau mesuradwy a chadarnhaol yn ymddygiad rhieni** o ganlyniad i'w rhaglenni.

45. Cyfeiriodd y teuluoedd a oedd yn cwblhau'r adnodd at rai newidiadau cadarnhaol yn aml ar draws wyth parth TOPSE (emosiwn a hoffter; chwarae a mwynhau; empathi a dealltwriaeth; rheolaeth; disgyblaeth a phennu ffiniau; pwysau rhianta; derbyn yr hunan; a dysgu a gwybodaeth). Adroddwyd am y gwelliannau mwyaf yn gyffredinol mewn disgyblaeth a phennu ffiniau.

46. Canfu'r astudiaeth hydredol nad oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ystadegol rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg a'r ardaloedd heb fod yn rhan o Dechrau'n Deg o ran hyder rhieni, amgylchedd y cartref, lefel y gefnogaeth i rieni neu iselder, fodd bynnag, efallai mai dim ond adlewyrchu diffyg data cyn Dechrau'n Deg am ganlyniadau rhieni mae hyn, sy'n golygu nad oes posib mesur graddfa'r newid sydd wedi digwydd efallai yn ardaloedd Dechrau'n Deg.

47. Er bod darganfyddiadau'r astudiaeth effaith yn awgrymu bod Dechrau'n Deg wedi arwain at gydraddoldeb mewn canlyniadau rhieni a phlant, nid oes tystiolaeth glir i gadarnhau bod hyn yn wir. Fodd bynnag, mae'r ymchwil ansoddol yn darparu tystiolaeth bod teuluoedd mewn angen mawr yn dweud bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol arnynt hwy fel rhieni/gofalwyr ac ar eu plant. Er enghraifft, soniodd rhieni/gofalwyr am welliannau i ddatblygiad iaith eu plant a'u sgiliau cymdeithasol, llythrennedd a rhifedd. Dywedodd y rhieni/gofalwyr eu bod wedi elwa o gyngor rhianta ac yn teimlo'n llai ynysig ac yn fwy tebygol o fynd ar gyrsiau hyfforddi. Hefyd, dywedodd y rhieni mewn angen mawr bod Dechrau'n Deg wedi arwain at newidiadau i'w teuluoedd yn gyffredinol, fel gwell arferion.

### *Ar gyfer gwasanaethau*

48. Ers gweithredu Dechrau'n Deg, bu rhai newidiadau amlwg yn arferion lleol Dechrau'r Deg, yn bennaf, datblygu llwybrau cyfeirio cryfach rhwng gwasanaethau, recriwtio grŵp ehangach o staff proffesiynol i ddiwallu anghenion lleol, a phwyslais ar hyfforddiant staff a datblygu dull amlasiantaeth o gyflwyno gwasanaethau.

49. Roedd data am ganlyniadau hyfforddiant staff a'r symud tuag at weithlu cwbl gymwys ar gael orau mewn perthynas a'r elfen gofal plant, lle'r oedd rhwymedigaeth benodol yn seiliedig ar gymwysterau staff. Erbyn 2011/12, dywedwyd bod yr holl staff gofal plant a rheoli mewn mwy na hanner yr awdurdodau Dechrau'n Deg wedi cymhwyso i safonau gofynnol Dechrau'n Deg o leiaf.

50. Roedd pob ardal yn gytûn bod cyllid ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg wedi arwain at y canlynol:

- asesiad mwy cynhwysfawr a chyflymach o angen
- cyfeirio mwy effeithiol at gefnogaeth arall yn Dechrau'n Deg ac at dimau cyffredinol neu iechyd ehangach (gan gynnwys deietegwyr, therapyddion iaith a lleferydd a chefnogaeth ymddygiad)
- cefnogaeth fwy hyblyg a dwys i deuluoedd cyn ac ar ôl geni ac wrth ddiddyfnu.

51. Ers 2009, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ardaloedd Dechrau'n Deg, o ran rhannu data mewnol (rhwng timau gofal iechyd a chymdeithasol, er enghraifft) ac o ran rhannu data gyda rhaglenni eraill (fel Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf). Croesawyd y Protocolau Rhannu Gwybodaeth ac roedd llawer o ardaloedd yn gweithio tuag at brotocolau o'r fath (neu wedi eu rhoi ar waith eisoes). Erbyn 2012 (pan gynhaliwyd y gwaith maes), roedd mwy na hanner yr ardaloedd Dechrau'n Deg wedi datblygu systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn y rhaglen ac

roedd gan ychydig llai na'u hanner gytundebau rhannu data gydag asiantaethau allanol.

52. Er bod llawer o'r ardaloedd a oedd heb Brotocolau Rhannu Gwybodaeth ffurfiol yn gweithio tuag at brotocolau o'r fath, cyfeiriodd pawb a gyfwelwyd at ba mor werthfawr yw rhannu data. Ond roedd y cynnydd yn cael ei ddal yn ôl o hyd gan y canlynol:

- diffyg caledwedd neu feddalwedd priodol, a oedd yn golygu nid yn unig bod cofnodion yn cael eu cadw mewn fformatau gwahanol (anghydnaws), ond bod llif gwybodaeth yn araf neu'n gyfyngedig, hyd yn oed mewn timau wedi'u cydleoli
- diffyg mynediad at ddata presennol, gyda rhai asiantaethau (fel timau gofal plant) yn methu cael mynediad i ddata asiantaethau eraill (fel ymwelwyr iechyd)
- protocolau proffesiynol gwahanol parhaus am drosglwyddo data.

# Gwersi a ddysgwyd

## Gwersi i'w gwerthuso

53. Mae'r gwerthusiad o Dechrau'n Deg wedi tynnu sylw at nifer o bwyntiau i'w hystyried. Mae llunwyr y polisïau a'r ymchwilwyr yn cydnabod bod rhaid ystyried monitro a gwerthuso ochr yn ochr â datblygu polisïau, fel bod posib datgan negeseuon clir am effaith y rhaglen a'r ymyriadau. Yn yr achos hwn:

- Roedd ffactorau allanol (y tu hwnt i reolaeth y tîm ymchwil a Llywodraeth Cymru) yn atal y gwerthusiad cenedlaethol rhag sicrhau llinell sylfaen glir a dilygredd cyn ymyrryd. Roedd hyn yn golygu bod rhai heriau sylweddol i'w goresgyn o ran datgan, yn ystadegol, effaith Dechrau'n Deg ar ganlyniadau ar gyfer plant, rhieni a gwasanaethau.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu system yn awr ar gyfer casglu a chynnull data monitro o wasanaethau Dechrau'n Deg, gyda'r gyfres ddata gyntaf wedi'i chasglu yn 2012. Nid oedd y data hyn ar gael yn unffurf ledled y 22 awdurdod lleol o ddechrau'r polisi, fodd bynnag, gan olygu bod asesu'r cynnydd ar draws y pedwar hawl yn eithaf cymhleth. Felly, daeth rôl yr astudiaethau achos manwl yn seiliedig ar ardal yn y broses fonitro'n bwysig o ran datblygu dealltwriaeth gyd-destunol ac o ran asesu newidiadau lleol i fewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau.

- Ni ddylid tanamcangyfrif rôl ymchwil ansoddol, ar lefel ardal a theulu, o ran y manylion mae'n eu darparu ar gyfer cyflwyno rhaglenni. Gall fod yn fuddiol cynnal ymchwil ansoddol pellach mewn ardaloedd a gyda grwpiau penodol o deuluoedd, fel y rhai sydd wedi'u datgan yn yr ymchwil ansoddol fel rhai sydd angen rhagor o gefnogaeth, gan gynnwys rhieni gydag iselder, rhieni gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau a rhieni ifanc. Byddai hyn yn darparu manylion pwysig am sut mae'r rhaglen yn datblygu, sut brofiad yw'r rhaglen i rieni a pha agweddau ar y rhaglen sy'n gweithio'n dda.

- O ystyried bod y polisi wedi'i dargedu'n bennaf at deuluoedd gyda phlant newydd eu geni hyd at bedair oed, ni fyddwn yn gwybod beth yw effaith y polisi yn y tymor hwy ar ganlyniadau ar gyfer plant wrth iddynt gamu i mewn i fyd addysg a symud drwy'r system, ac ar deuluoedd wrth iddynt rianta eu plant yn tyfu, nes bod y plant hynny'n tyfu'n hŷn. Er mwyn canfod effaith tymor hwy Dechrau'n Deg, byddai'n ddefnyddiol cofnodi datblygiad teuluoedd Dechrau'n Deg. Gellid gwneud hyn drwy gyfateb data'r arolwg a data eraill i gyfresi data gweinyddol fel Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion.

- Mae mesur effaith polisi cymdeithasol ar y boblogaeth y mae wedi'i fwriadu ar ei chyfer yn gymhleth ac yn heriol. Dylanwadwyd ar y cynllun a ddewiswyd ar gyfer astudiaeth effaith y gwerthusiad hwn gan y ffaith bod y gwerthusiad wedi cael ei gomisiynu ar ôl dechrau ehangu'r rhaglen a bod Dechrau'n Deg wedi ehangu'n genedlaethol ar draws y rhan fwyaf o'r

ardaloedd difreintiedig yng Nghymru. Roedd hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod gwerthuso'n rhan ganolog o ddatblygu polisi. Mae cydweithio agos rhwng gwleidyddion, swyddogion polisi a dadansoddwyr yn y llywodraeth, gyda chefnogaeth gan arbenigwyr allanol fel sy'n briodol, yn hanfodol. Po gynharaf y bydd hyn yn digwydd, yr ehangaf fydd yr opsiynau gwerthuso a fydd ar gael. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod modd defnyddio'r cynllun gwerthuso gorau posib er mwyn darparu tystiolaeth gadarn ynghylch pam y mae rhaglen yn gweithio ai peidio.

## Gwersi ar gyfer polisi

54. Mae profiad Dechrau'n Deg yn tynnu sylw at lawer o'r heriau a wynebir wrth integreiddio gwasanaethau, boed fel rhan o raglen neu gyda gwasanaethau cyffredinol y tu allan i'r rhaglen. Yn benodol, mae'n rhaid wrth amser i integreiddio, oherwydd mae'n cynnwys yr angen, er enghraifft, am ddod â gwahanol arferion proffesiynol at ei gilydd a sefydlu protocolau a rennir ar gyfer gweithio gyda phlant a theuluoedd. Hefyd, yn aml iawn mae'n rhaid wrth newidiadau sylweddol i systemau gweithredol er mwyn integreiddio, yn enwedig mewn perthynas â chael mynediad at ddata. Hyd yn oed pan mae cytundebau rhannu data yn eu lle, gall materion meddalwedd atal mynediad eang, er enghraifft.

55. Roedd yr integreiddio a'r gweithredu mwyaf blaengar mewn perthynas â Dechrau'n Deg yn ymddangos fel pe bai wedi digwydd yn yr ardaloedd hynny lle roedd gwaith wedi cael ei wneud ar unioni ffocws a chyflawniad y polisïau amrywiol a oedd wedi cael eu sefydlu (yn genedlaethol ac yn lleol) ar gyfer gwaith gyda theuluoedd.

## Gwersi ar gyfer ehangu

56. Yn seiliedig ar y dystiolaeth rydym wedi'i chynhyrchu yn ystod y gwerthusiad, byddem yn dadlau bod yr awdurdodau lleol a geisiodd ymgorffori egwyddorion y rhaglen yn eu darpariaeth brif ffrwd ehangach, ac a ddechreuodd y broses hon rai blynyddoedd yn ôl, mewn sefyllfa gadarnach yn awr o ran cynnal a gwella'r gweithgarwch. Nid yw integreiddio strategol ar ei ben ei hun yn ddigon; i gynnal arferion, allbynnau a chanlyniadau da, mae'n rhaid i Dechrau'n Deg hefyd fod wedi sefydlu mecanweithiau ar gyfer dylanwadu ar gyfeiriad strategol cynlluniau lleol a gwasanaethau cysylltiedig.

57. Bu cydnabyddiaeth gynyddol bod llawer o deuluoedd yn wynebu ystod o rwystrau cymhleth a rhyngddibynnol yn aml, sy'n atal ymgysylltu â'r ddarpariaeth. Gall cefnogaeth deilwredig a hyblyg, sy'n ystyried gwahaniaethau mewn daearyddiaeth, demograffeg a diwylliant (hyd yn oed i lawr i lefel gymunedol), ymddangos yn ddrud ar y dechrau. Fodd bynnag, mae wedi profi'n fwy effeithiol yn aml, yn enwedig gyda theuluoedd mewn angen mawr, na chynnig mwy cyffredinol.

58. Ochr yn ochr â darpariaeth a hygyrchedd y gwasanaethau, mae'n rhaid sicrhau'r canlynol:

- argaeledd gwybodaeth briodol i rieni/gofalwyr, gan bwysleisio cymhwysedd, perthnasedd cyffredinol a manteision posib, ar ffurf sy'n cael ei deall a'i gwerthfawrogi gan deuluoedd

- cyfeirio clir a systematig rhwng gwasanaethau fel bod teuluoedd yn gallu manteisio ar yr hawliau.

59. Yn lleol ac yn genedlaethol, mae'n bwysig bod timau Dechrau'n Deg yn gallu defnyddio datblygiadau er mwyn monitro a gweinyddu data i gofnodi plant Dechrau'n Deg a phlant nad ydynt yn rhan o raglen Dechrau'n Deg wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Bydd hyn yn darparu asesiad cymharol ar draws ystod o ganlyniadau (gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol, iechyd a lles cymdeithasol). Gallai dangos canlyniadau ac effeithiau'r rhaglen mewn ffordd gadarn arwain nid yn unig at welliannau i gynllunio a chyflwyno, ond hefyd darparu rhesymeg ar gyfer cefnogaeth wleidyddol (ac ariannol) yn y dyfodol.